**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**14 MEHEFIN 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Llun, 14 Mehefin 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sian Braun, Bob Connah, Paul Cunningham, Gladys Healey, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith a Martin White.

**AELOD CYFETHOLEDIG:** Mr David Hytch.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Joe Johnson. Rebecca Stark, Lynn Bartlett a Wendy White. Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid).

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Patrick Heesom (ar ran y Cynghorydd David Williams).

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 01. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol, wedi penderfynu y byddai'r Grŵp Llafur yn cadeirio'r Pwyllgor hwn. Cafodd y Pwyllgor wybod mai'r Cynghorydd David Healey oedd Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cynghorydd David Healey fel Cadeirydd y Pwyllgor.

Cadeiriodd y Cynghorydd Healey y cyfarfod o'r pwynt hwn ymlaen.

## 02. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Gladys Healey y Cynghorydd Tudor Jones fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Paul Cunningham. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Tudor Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## 03. DATGANIADAU DIDDORDEB (YN CYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 04. CYDNABYDDIAETH I DAVID HYTCH A REBECCA STARK

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfnod mewn swydd ar gyfer David Hytch a Rebecca Stark, a oedd yn aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor, yn dod i ben ym mis Mehefin 2021. Talodd deyrnged i David a Rebecca i gydnabod eu gwasanaeth hirsefydlog a'u cyfraniad cadarn i waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant. Diolchodd hefyd i David am ei gefnogaeth effeithiol fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

Canmolodd y Cynghorydd Paul Cunningham ymrwymiad a gwaith David a Rebecca a dywedodd y byddai colled ar eu hôl.
Diolchodd y Cynghorydd Ian Roberts i David a Rebecca am eu gwasanaeth hirsefydlog fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor ac am eu cyfraniad i Wasanaethau Addysg a darpariaeth iaith Gymraeg yn Sir y Fflint.

Gwnaeth y Cynghorwyr David Mackie a Tudor Jones sylwadau ar sgiliau proffesiynol a rhinweddau personol David a Rebecca a byddai hiraeth amdanynt. Dywedodd yr Aelodau fod David a Rebecca wedi bod yn ased mawr i'r Pwyllgor a bod eu mewnbwn a'u safbwyntiau wedi bod yn amhrisiadwy.

Diolchodd Mr Hytch i'r Aelodau am eu geiriau caredig a dywedodd ei fod wedi bod yn falch o fod yn rhan o broses adeiladol i gyflawni'r canlyniadau gorau mewn addysg i blant a phobl ifanc yn Sir y Fflint. Talodd deyrnged i'r Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor a Phrif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) am y cynnydd a wnaed o ran addysg cyfrwng Cymraeg a dymunodd lwyddiant i'r Aelodau gyda'r gwaith a'r heriau y bydd y Pwyllgor yn mynd i'r afael â nhw yn y dyfodol.

Yn ei habsenoldeb, darllenodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd lythyr gan Rebecca Stark a oedd wedi'i gyfeirio at Aelodau'r Pwyllgor. Dywedodd Rebecca ei bod wedi bod yn fraint i gynrychioli rhieni ar y Pwyllgor yn ei rôl fel aelod cyfetholedig a diolchodd i'r Aelodau, swyddogion a David Hytch am eu gwaith caled a'u cefnogaeth.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r aelodau cyfetholedig sy'n ymddeol yn derbyn dau wydr Cyngor Sir y Fflint mewn bocs anrheg arbennig, fel arwydd o ddiolch gan y pwyllgor.

## 05. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.22am)

…………………………

**Y Cadeirydd**